Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr: diweddariad ar gyfer Medi 2021

Diweddariad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

Cyhoeddwyd gyntaf: 22 Medi 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 22 Medi 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-diweddariad-ar-gyfer-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Y cyd-destun

Cefnogaeth a ddarparwyd ers cyhoeddi Adnewyddu a Diwygio

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon

Ymchwil a gwerthuso

# Y cyd-destun

1. Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **gynllun Adnewyddu a Diwygio**, yn nodi ein blaenoriaethau a'n cynllun i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ymateb i bandemig COVID-19. Mae ein cynllun yn amlinellu'r fframwaith a'r cyllid sydd ar gael i'n galluogi i gydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr mewn ymateb i'r pandemig.
2. Ein prif ffocws yw darparu cyllid yn uniongyrchol i ysgolion a cholegau i gefnogi a hyrwyddo lles a chynnydd pob dysgwr. Yn ogystal â hynny, gan fod y dystiolaeth yn awgrymu bod effeithiau'r pandemig wedi bod yn wahanol i wahanol grwpiau o ddysgwyr, mae'r cynllun hefyd yn nodi sut rydym am ddatblygu a darparu pecynnau cymorth pwrpasol i'r rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig, gan gynnwys:

- dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar
- dysgwyr agored i niwed a dysgwyr sydd dan anfantais
- dysgwyr mewn addysg ôl-16 a chyfnodau pontio

3. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid ehangach ar draws y sector addysg am hynt cynllun Adnewyddu a Diwygio, y cyllid a ddyrennir ar hyn o bryd i gefnogi ymyriadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-diweddariad-ar-gyfer-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

i gefnogi dysgu, a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## Cefnogaeth a ddarparwyd ers cyhoeddi Adnewyddu a Diwygio

4. Rydym eisoes wedi dechrau darparu cefnogaeth hanfodol fel rhan o gynllun Adnewyddu a Diwygio. Fel rhan o 'Haf o Hwyl', dyrannwyd £4.55 miliwn i awdurdodau lleol. Mae'r awdurdodau lleol wedi gweithio gyda phartneriaid lleol i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae, chwaraeon a diwylliannol a ariennir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn wedi helpu i gefnogi lles corfforol, meddyliol ac emosiynol dysgwyr 0 i 25 oed, ochr yn ochr â mentrau pwysig eraill fel Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf a'r Rhaglen Gwaith Chwarae.
5. Neilltuwyd £450,000 arall i ddatblygu gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol peilot i'w cynnal ochr yn ochr â'r diwrnod ysgol, mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, fel rhan o'r cyfanswm o £5 miliwn a ddyrannwyd i 'Haf o Hwyl'.
6. Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r gwaith o ddarparu fersiwn sylweddol ehangach o Raglen Gwella Gwyliau'r Haf – cynigiwyd 8000 o leoedd, 50% yn fwy nag yn 2019 pan gafodd y cynllun ei redeg ddiwethaf cyn y pandemig.
7. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £2.4 miliwn i gefnogi rhaglen trochi yn y Gymraeg ynghyd â blaenoriaethau addysg Cymraeg 2050. Mae hyn yn cynnwys £2.2 miliwn i sicrhau ein bod yn diogelu ac yn ehangu'r capasiti ar gyfer trochi hwyr, er mwyn i blant hŷn gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt fel y gallant ddechrau dysgu drwy'r Gymraeg yn hyderus. Bydd yr arian yn cefnogi dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a gollodd y cyfle, yn ystod y pandemig, i ddefnyddio eu Cymraeg bob dydd, ac y cafodd eu cysylltiad â'r iaith ei rwystro oherwydd y tarfu a achoswyd. Byddwn yn darparu cyllid untro o £200,000 i'r Eisteddfod Genedlaethol, a fydd yn helpu i ailadeiladu lefelau staffio yn dilyn y pandemig.
8. Cyhoeddwyd £1.7 miliwn i gefnogi athrawon newydd gymhwyso wrth iddynt ddechrau ar swydd addysgu, gan gefnogi ein hymdrechion i Adnewyddu a Diwygio, yn ogystal â'r £6 miliwn blaenorol. Dyrannwyd £3.594 miliwn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-diweddariad-ar-gyfer-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ychwanegol i gefnogi adferiad dysgu, darparu cymwysterau 2021 a pharatoadau ar gyfer 2022 er mwyn ymateb i'r tarfu yn sgil COVID-19.

9. Ym mis Mehefin, cadarnhaodd cynllun Adnewyddu a Diwygio fod dros £150 miliwn wedi'i ddarparu ar gyfer blwyddyn ariannol 2021 i 2022, yn ogystal â thros £220 miliwn yn 2020 i 2021. Mae'r cymorth ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dros yr haf yn dod â chyfanswm y cyllid ar gyfer Adnewyddu a Diwygio i dros £160 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022.

# Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon

10. Wrth i ysgolion a lleoliadau ailgydio y tymor hwn, byddwn yn parhau i weithio i ddatblygu a darparu cymorth hanfodol dros y flwyddyn academaidd nesaf ar draws y 4 maes allweddol a nodwyd yng nghynllun Adnewyddu a Diwygio.

## Dysgu a lles i bob dysgwr

11. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y cyllid sy'n parhau i fod ar gael ar gyfer rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn adeiladu ar y cymorth hanfodol y mae dysgwyr eisoes wedi'i gael. Mae'r rhaglen wedi galluogi ysgolion i nodi'r dysgwyr hynny sydd fwyaf anghenus, a datblygu cymorth ar eu cyfer yn unol ag egwyddorion y rhaglen. Yn bwysig iawn, mae hyn yn cynnwys cymorth i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n byw ar aelwydydd lle na siaredir Cymraeg, a fydd wedi wynebu heriau penodol yn ystod y cyfnodau o ddysgu o bell a chyfunol.
12. Bydd y capasiti, y gallu a'r cymorth targed ychwanegol hwn i ddysgwyr yn parhau i fod yn rhan ganolog o'n dull gweithredu hirdymor ar gyfer cefnogi dysgu, ar y cyd â mentrau eraill i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr. Rydym wedi dosbarthu £35.8 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i ysgolion ac awdurdodau lleol fel rhan o raglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, er mwyn cadw a chefnogi'r 1,800 o staff cyfwerth ag amser llawn a recriwtiwyd.
13. Rydym hefyd yn buddsoddi dros £7 miliwn eleni i gynnig lleoliadau hirdymor i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-diweddariad-ar-gyfer-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

athrawon newydd gymhwyso cymwys. Rydym wedi paru dros 400 ohonynt ag ysgolion, gan eu helpu i feithrin eu profiad addysgu a chefnogi ysgolion i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig.

14. Rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o fenter 'Haf o Hwyl' eleni, a darperir adroddiad ym mis Tachwedd 2021. Yn dilyn hyn, byddwn yn ceisio adeiladu ar lwyddiannau 'Haf o Hwyl', gan gynnwys cefnogi ymhellach fynediad at weithgareddau a phrofiadau chwarae, chwaraeon, creadigol a mynegiannol, a diwylliannol i ddysgwyr. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i ddatblygu mentrau i sicrhau bod profiadau a gweithgareddau ychwanegol o ansawdd yn cael eu darparu yn ystod ac o amgylch y diwrnod, yr wythnos a'r flwyddyn ysgol.
15. Ymhlith y blaenoriaethau pellach ar gyfer y flwyddyn academaidd hon mae mesurau i gefnogi dysgu ac addysgu os bydd tarfu pellach, gan adeiladu ar yr arbenigedd a ddatblygwyd mewn ysgolion yn ystod 2021 i 2022. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod y canllawiau perthnasol yn gyfredol ac yn glir o ran yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan ysgolion a darparwyr dysgu eraill.

## Dysgwyr sydd dan anfantais a dysgwyr agored i niwed

16. Dros yr haf, sefydlwyd prosiect gennym gyda'r nod o fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig ar ddeilliannau dysgwyr agored i niwed ac sydd dan anfantais, gan gynnwys y rhai sydd newydd cael eu hunain mewn sefyllfa agored i niwed neu dan anfantais, gan sicrhau ein bod yn lleihau'r tebygolrwydd o effeithiau hirdymor.
17. Byddwn yn parhau i gefnogi dysgwyr agored i niwed, gan gynnwys drwy gyflwyno dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol.
18. Bydd y £9 miliwn ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan y flwyddyn ariannol hon yn cefnogi'r canlynol:

- gwella ac ehangu'r gwasanaeth cwnsela presennol mewn ysgolion, sy'n ymdrin â thua 11,500 o ddysgwyr bob blwyddyn
- hyfforddi athrawon ac eraill ym maes lles plant
- darparu ymyriadau cyffredinol ac wedi'u targedu mewn ysgolion
- cyflwyno cynlluniau peilot Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) mewn ysgolion ar lefel genedlaethol lle bydd gweithwyr iechyd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-diweddariad-ar-gyfer-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

meddwl proffesiynol penodol yn cydweithio ag ysgolion

19. Rydym hefyd yn gweithio, fel rhan o'r Dull Ysgol Gyfan, i gefnogi lles staff, gan gynnwys gweithio gydag elusen Cymorth Addysg.
20. Yn ogystal â'n hymrwymiadau presennol, byddwn yn gweithio i nodi dysgwyr agored i niwed ac o dan anfantais ac yn ceisio darparu cymorth cynnar wedi'i dargedu. Byddwn yn parhau i asesu a nodi'r potensial ar gyfer cymorth pellach i leihau'r tebygolrwydd o effeithiau hirdymor ar ddysgwyr agored i niwed ac o dan anfantais.

## Dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar

21. Mae nodi'r blynyddoedd cynnar fel carfan flaenoriaeth o fewn Adnewyddu a Diwygio yn tanlinellu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r risg y bydd ein dysgwyr ieuengaf yn colli cerrig milltir datblygu allweddol.
22. Rydym wedi ymrwymo £13 miliwn ychwanegol y flwyddyn ariannol hon i sicrhau bod dysgwyr ifanc yn cael cyfleoedd dysgu o ansawdd, yn seiliedig ar chwarae, cyn dechrau addysg ffurfiol a thrwy gydol eu blynyddoedd cynnar. Daw'r cyllid yn uniongyrchol drwy'r Grant Gwella Addysg a bydd yn:

- cryfhau cymarebau oedolion i blant mewn ysgolion a meithrinfeydd a gynhelir
- darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer y sector nas cynhelir (gofal plant)
- darparu cyfleoedd hyfforddi ychwanegol ar draws y sectorau gofal plant ac addysg gan ganolbwyntio ar anghenion dysgwyr y blynyddoedd cynnar

23. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn hybu cydberthnasau cadarnhaol ac yn rhoi'r amser a'r cyfle i ymarferwyr gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu hiaith, eu sgiliau cymdeithasol a'u datblygiad corfforol. Fel rhan o raglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau y flwyddyn ariannol hon, mae £1.92 miliwn hefyd wedi'i ymrwymo i gefnogi'r sector gofal plant nas cynhelir. Byddwn yn monitro sut caiff y cyllid hwn ei ddosbarthu a'i ddefnyddio, ac mae'r cynlluniau gwariant i'w cyflwyno yn nhymor yr hydref.
24. Er mwyn cryfhau ac atgyfnerthu dulliau'r Cyfnod Sylfaen o ddysgu yn y blynyddoedd cynnar, rydym wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o fanteision chwarae a dysgu seiliedig ar chwarae. Rydym yn datblygu modiwlau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-diweddariad-ar-gyfer-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hyfforddi i ymarferwyr i gefnogi eu datblygiad mewn nifer o feysydd, gan gynnwys datblygiad plant, cyfnodau pontio a dysgu yn yr awyr agored; bydd y rhain ar gael i ymarferwyr yn nhymor yr hydref.

25. Rydym wedi comisiynu Prifysgol Abertawe i gynnal astudiaeth Delphi er mwyn ceisio creu consensws ymhlith arbenigwyr ynghylch y dulliau gorau y gall ymarferwyr y blynyddoedd cynnar eu defnyddio mewn lleoliadau addysg gynnar a gofal plant er mwyn nodi effeithiau COVID-19 ar blant dan 5 oed, mynd i'r afael â nhw neu eu lliniaru. Disgwylir i'r hyn a ddysgir o'r astudiaeth hon lywio'r rhaglen.

## Dysgwyr mewn addysg ôl-16 a chyfnodau pontio

26. Rydym yn darparu £33 miliwn eleni i gefnogi dysgwyr 16 i 19 oed llawn amser sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch neu alwedigaethol mewn colegau addysg bellach ac yn chweched dosbarth ysgolion. Mae'r tarfu a fu ar gymwysterau yn ystod y 2 flynedd academaidd ddiwethaf yn golygu y gallai fod angen cymorth ar ddysgwyr sy'n paratoi ar gyfer cymwysterau y flwyddyn academaidd hon i feithrin eu hyder. Un flaenoriaeth bwysig dros y flwyddyn academaidd nesaf fydd gweithio ar draws y sector addysg i gefnogi dysgwyr sy'n paratoi ar gyfer y cymwysterau hyn, a'u galluogi i symud ymlaen i'w cam nesaf, fel y gwnaethom yn 2021.
27. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu polisi i gefnogi dysgwyr ôl-16 yn y tymor canolig a'r tymor hir. Gan weithio gyda Chanolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, rydym wedi dechrau adolygiad cyflym o ymchwil a gyhoeddwyd ar y dulliau mwyaf effeithiol o gefnogi dysgwyr ôl-16 o ran eu lles a'u dysgu, yn sgil tarfu sylweddol ar eu haddysg. Bydd canfyddiadau interim yr ymarfer hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu cyfres o fentrau i gefnogi dysgwyr, ymarferwyr a darparwyr.
28. Rydym yn ystyried amrywiaeth o fentrau cymorth, a allai gynnwys adnoddau penodol i helpu darparwyr yn eu hymdrechion i ehangu a gwella sgiliau'r gweithlu, yn ogystal â darparu gwasanaethau cymorth tiwtora a lles cydgysylltiedig i ddysgwyr. Byddwn yn parhau i ddadansoddi canfyddiadau'r ymchwil a mapio'r rhain fel sail i'r mentrau cymorth presennol a rhai newydd. Byddwn yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid a chyda dysgwyr i helpu i gynllunio, treialu, mireinio a gwerthuso'r mentrau cymorth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-diweddariad-ar-gyfer-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hyn.

29. Byddwn yn cyhoeddi’r cynllun gweithredu ar gyfer adfer addysg ôl-16 y tymor hwn gan nodi ein cynlluniau manwl, gan gynnwys ffrydiau gwaith, amserlen weithredu, strategaeth werthuso, a’r gwaith ymchwil ac asesu hyd yma.

## Ymchwil a gwerthuso

30. Rydym wrthi’n datblygu dull o lywio a gwerthuso llwyddiant rhaglen Adnewyddu a Diwygio. Caiff y canfyddiadau eu cofnodi mewn ffordd dryloyw ac yn rheolaidd drwy erthyglau ac adroddiadau ar ein tudalennau Ystadegau ac Ymchwil, a’u rhannu drwy ein cyfryngau cyfathrebu arferol â phartneriaid a rhanddeiliaid.
31. Byddwn yn gwerthuso mentrau yn erbyn y meini prawf llwyddiant a nodir yng nghynllun Adnewyddu a Diwygio (lles dysgwyr ac ymarferwyr, cyrhaeddiad a chynnydd addysgol, tegwch, a hyder rhanddeiliaid) gan ddefnyddio amrywiaeth o fesurau, safbwyntiau a ffynonellau tystiolaeth gwahanol i lywio hyn. Mae gwerthusiad annibynnol o effeithiolrwydd rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.
32. Byddwn yn parhau i gasglu a dadansoddi tystiolaeth sy’n dod i’r amlwg ar y cymorth mwyaf effeithiol i ddysgwyr ac ymarferwyr, a’i defnyddio fel sail i’n cynlluniau.
33. Bydd ein dull gwerthuso cydgysylltiedig yn lleihau’r baich ar ymarferwyr a darparwyr dysgu ac yn osgoi’r angen i ofyn am lawer iawn o ddata ac adroddiadau ychwanegol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-diweddariad-ar-gyfer-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr: diweddariad ar gyfer Medi 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-diweddariad-ar-gyfer-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-diweddariad-ar-gyfer-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.